

dydd
sadwrn

4 Awst

Pentref Drama

Trefnir gan yr Eisteddfod mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru



Lleolir Theatr y Maes yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a chynhelir rhai gweithgareddau theatrig yn y Babell Lên yn y Ganolfan ynghyd â chanolfannau eraill fel y nodir.

Bydd angen band garddwrn i gael mynediad i'r Ganolfan **yn ystod y dydd**, a bydd angen tocyn i berfformiadau **gyda'r nos**. Nodir sesiynau lle nad oes angen band garddwrn gyda*

17:00 Pantomeim OMB! Panto i'r teulu cyfan!

OMB! Mae Gwersyll Mam bach mewn trwbwl! Mae swogs y gwersyll yn ddiog, Ifanca, y ferch ifanca'n gweithio'n rhy galed a Mam bach yn boddi mewn dyledion!

Sut allwn ni achub gwersyll OMB? Dewch i ganu a chwerthin lond eich boliau gyda chymeriadau lliwgar Gwersyll OMB. Addas i deuluoedd

Perfformiad yn Y Babell Lên

#caerdydd

20:45 Nos Sadwrn o Hyd

Am gyfnod byr mae bywyd yn felys i Lee, ond buan mae'n sylwi nad yw pethau yn para am byth. Cyfieithiad o ddrama *Saturday Night Forever*, Roger Williams

£10 Tocynnau o www.eisteddfod.cymru
/ **0845 4090 800**

Perfformiad yn Ffresh

#masarymaes



Pentref Drama

Trefnir gan yr Eisteddfod mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru



Leolir Theatr y Maes yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a chynhelir rhai gweithgareddau theatrigr yn y Babel Lân yn y Ganolfan ynghyd â chanolfannau eraill fel y nodir.

Bydd angen band garddwrn i gael mynediad i'r Ganolfan **yn ystod y dydd**, a bydd angen tocyn i berfformiadau **gyda'r nos**. Nodir sesiynau lle nad oes angen band garddwrn gyda*

11:00 Cystadleuaeth Actio Drama neu waith dyfeisiedig (112)

Eira Mawr gan John O Evans - Cwmni Drama'r Gwter Fawr

Gyda llond tŷ o bobl yn gwrthod cydweithio, daw storm o eira a'u stopio rhag dychwelyd adref. Ond does dim digon o welyau i bawb. A fydd Caradog a Megan yn gallu datrys popeth?

Caradog Edwards	Eifion Price
Megan Edwards	Siwsan Isaac
Wili Paent	Colin Evans
Dic Trydan	Jayson Senchall
Stanley Wilson	Alan Pedrick
Margaret Wilson	Lisa Lewis Jones
Dorothy Carter	Janet Bowen
Cyfarwyddwr	Mel Morgans

Beirniaid: Gwennan Mair, Gwynedd Huws Jones

Gwobrau:

1. Cwpan Gwynfor i'w ddal am flwyddyn a £500 (Aled Tudur Evans, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd)
2. £300 (Cylch Cinio Merched Caerdydd)
3. £200 (Aled Tudur Evans, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd)

Actor gorau cystadleuaeth 112

Gwobr:

Cwpan Bro Dinefwr i'w ddal am flwyddyn (rhoddedig gan Eddie Thomas) a £100 (Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf)

Cyfarwyddwr gorau cystadleuaeth 112

Gwobr:

£100 (Ruth a Bill Davies, Caerdydd)

Cynhelir y gystadleuaeth yn Theatr y Maes

12:30 Cyflwyniad ar lafar, dawns a chân (8)

Thema: Môr

Rhaid cynnwys o leiaf dair elfen o blith y pump a nodir, sef alawon gwerin traddodiadol, cerdd dant, dawns, drama a llefaru i greu perfformiad dychmygus. Ni ddylai'r cyflwyniad fod yn hwy na 10 munud, yn cynnwys paratoi a chlirio'r llwyfan

Beirniaid: Myfanwy Rees, Ann Siriol Davies, Leah Owen, Simon Watts

Gwobrau:

1. Tlws Parti'r Ffynnon i'w ddal am flwyddyn a £350 (Teulu Jack a Jean Williams, Llanddona)
2. £250 (Deri a Megan Tomos, Llanllechid)
3. £150 (Ysgol Mynydd Bychan)

Ymgeiswyr:

1. Bro Taf
2. Glanaethwy
3. Ysgol Treganna

Cynhelir y gystadleuaeth yn Theatr y Maes

15:00 Theatr Clwyd

Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn gweithio gyda chymunedau a phobl ifanc? Ydych chi'n hoff o'r theatr yn ei holl ffurfiau? Sesiwn agored i unrhyw un sy'n gweld bod y celfyddydau'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

20:00 #Sieiloc -

Gareth Armstrong gyda Rhodri Miles yn perfformio, sioe un dyn newydd yn y Gymraeg yw #Sieiloc, a hynny gan y tîm ddaeth â Burton a Dylan Thomas: Clown in the Moon i'r llwyfan. Enillodd y sioe wobwr Cynhyrchiad Teithiol Gorau yn yr Iaith Gymraeg yng Ngwobrau Theatr Cymru eleni

Ai dihiryn ynteu dioddefwr a gafodd ei drin yn hallt yw Shylock y benthyciwr arian Iddewig o'r ddrama Marsiandwr Fenis? Mae drama rymus Gareth Armstrong yn herio'r stereoteipiau hyn drwy lygaid unig ffrind Shylock – ac unig Iddew arall holl waith Shakespeare – Tiwbal

Dewch i dathlu iaith unigryw a chyfoethog Shakespeare yn y driniaeth fanwl, hudol a doniol hon o Shylock a'i bobl. Cynhyrchiad Cynrychiadau Miles

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800

Perfformiad yn y Babel Lân

20:45 Nos Sadwrn o Hyd

Gweler nos Sadwrn am fanylion llawn

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800

#masarymaes

Pentref Drama

Trefnir gan yr Eisteddfod mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru



Lleolir Theatr y Maes yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a chynhelir rhai gweithgareddau theatrig yn y Babell Lân yn y Ganolfan ynghyd â chanolfannau eraill fel y nodir. Bydd angen band garddwrn i gael mynediad i'r Ganolfan **yn ystod y dydd**, a bydd angen tocyn i berfformiadau **gyda'r nos**. Nodir sesiynau lle nad oes angen band garddwrn gyda*

11:00 Cystadleuaeth Actio Drama neu waith dyfeisiedig (112)

A'r Maglau wedi Torri gan Emyr Edwards – Cwmni Licris Olsorts

Mae Gwenda'n poeni, a 'dyw hi ddim yn disgwyl ymweliad – yn enwedig gan Sali. Tybed sut wnaiff hi ddelio gyda'r sefyllfa anghysurus sydd wedi codi mor annisgwyl?

Drama nerthol am berthynas dwy wraig gan feistr y ddeialog, Emyr Edwards

Gwenda Sharon King
Sali Rhian Evans
Cynhyrhydd Sion Pennant

Gweler dydd Sul am fanylion llawn

Perfformiad yn Theatr y Maes

12:00 Gweithdy Creu masgiau

Cyfle i greu masgiau ar gyfer y sesiynau Theatr mewn Troli gyda Theatr Genedlaethol Cymru

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

12:30 Protest Fudr

Chwe drama fer, fachog, newydd sbon wedi'u hysgrifennu ar themâu cyfoes ac amserol yn cael eu perfformio sgript mewn llaw gan griw o actorion proffesiynol

Perfformiad yn Theatr y Maes

13:00 Theatr mewn Troli

Dewch draw i'r Caffi i greu theatr gan ddefnyddio propiau a masgiau o'r troli gyda Theatr Genedlaethol Cymru

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

13:30 Ysgrifennu cyfoes ar gyfer heddiw

Sgwrs am ysgrifennu cyfoes ar gyfer heddiw yng nghwmni Theatr y Sherman

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

14:00 Symud a Sŵn

Dewch i agor y dychymyg, creu storïau a chymeriadau drwy ymarferion drama, symud a llais. Dyma gyfle gwych i fod yn greadigol, gwneud ffrindiau newydd a chael hwyll! Gweithdy drama i blant 7-11 oed, dan arweiniad yr actores Ffion Wyn Bowen, Arad Goch

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

15:00 Frân Wen

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

16:00 Gweithdy Gwenyn

Ymunwch gyda chriw Theatr Genedlaethol Cymru i greu gwenyn bach. Cyfle i ddatblygu sgiliau actio

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

18:00 Milwr yn y Meddwl – Heiddwen Tomos

Mae Ned wedi dod adref i orllewin Cymru o faes y gad, ond mae ei brofiadau diweddar yn rhyfel Irac wedi gadael creithiau dyfnion. Mae rhai'n greithiau gweledol, ac eraill – y rhai dyfnaf – yn anweledig

Dyma ddrama newydd, ddiryngol sy'n archwilio effaith trawma ar filwr o Gymro, wrth iddo ef a'i deulu geisio dod i delerau â digwyddiadau erchyll o'i orffennol a'r heriau newydd sy'n ei wynebu. Mewn stori oesol am gariad a pherthyn, a fydd cwlwm câr yn drech na'r fwled a'r bom?

Drama fuddugol y Fedal Drama, Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017, a chynhyrchiad gan Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr y Sherman, mewn partneriaeth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru, gyda chefnogaeth gan Ystâd Lenyddol Gwenlyn Parry a Chronfa Goffa Hugh Griffith

£10

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

Perfformiad yn Theatr y Maes

20:00 Gair o Gariad

Mae *Gair o Gariad* gan Theatr Bara Caws yn wahanol iawn i'r un sioe arall fyddwch chi wedi'i gweld erioed, felly dymunwn eich gwahodd i rannu atgofion mewn digwyddiad unigryw. Wrth brynu tocyn bydd cyfle i chi gyflwyno cais am gân i rywun arbenngig, ac efallai bydd eich 'Gair o Gariad' yn cael ei blethu i gorff y sioe, ac yn rhoi cyfle i bawb gyd-rannu profiadau hiraethus, hapus, trist a digri.

Dewch i gynniig llwnc destun i gariadon o bob math... cariadon hen a newydd: cariad rhwng dau, rhwng dwy, rhwng plant a'u rhieni, rhwng ffrindiau, rhwng perchnogion a'u hanifeiliaid...

Rhodri Siôn a Llewun Steffan sy'n perfformio'r addasiad Cymraeg o sioe Uninvited Guests – *Love Letters Straight from Your Heart*

£10

40 sedd yn unig sydd ar gael ym mhob perfformiad, felly cyntaf i'r felin!
Tocynnau o www.chapter.org

Perfformiad yng Nghanolfan Chapter

20:00 Mynd a Dod

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd sy'n perfformio gwaith sy'n ymdrin â rhyddid i fynd a dod fel ag y mynnwn. Hawl dynol. Ond pan gymerir yr hawl i symud yn rhydd o amgylch eich dinas eich hun oddi wrthyhych, a hynny er eich lles chi, sut fydddech chi'n ymateb?

Ymateb yr ysgol i gomisiwn arloesol gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru yw *Mynd a Dod*. Mae'r sgript wedi'i hysgrifennu gan

bobl ifanc, y gerddoriaeth gan Wigwam, a'r perfformwyr i gyd o Ysgol Plasmawr.

Archwiliad dwys a doniol o fyd sy'n cael ei lywodraethu gan ddelweddau, gwefannau cymdeithasol, rhieni, ac athrawon. Boed o 'Upper' neu 'Lower', mewn addysg, gwaith neu ddim, mae pawb yr un peth pan mae ffiniau'n cael eu cau a does dim modd i unrhyw un fynd a dod.

Ariannwyd y prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru dan arweiniad Bethan Marlow, Meilir Gwynedd, Marc Lewis a Rhydian Lake

Oedran: 14+ (iaith gref)

£10

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

Perfformiad yn Theatr y Maes

20:00 #Sieiloc

Gweler nos Sul am fanylion llawn

£10

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

20:00 Anweledig – Aled Jones Williams

Taith iasol i ddyfnderoedd selar Portland House i gyfarfod Glenda.

Ma hi'n... isel... 'rïoed di bod mor isel. Ddim yn 'nabod hi ei hun na neb arall 'chwaith. Crio, gwylltio a chwerthin – ond ma hi'n dal i deimlo'n anweledig. Chi sydd i ddewis be ydach chi'n brofi. Pa mor agos 'newch chi fentro?

Dewch i gamu lawr y grisiau cul i oerni'r 'stafelloedd tanddaearol i brofi dehongliad arbrofol o fonolog Anweledig gan Aled Jones Williams.

Anaddas ar gyfer y gwan-galon...

Ffion Dafis sy'n perfformio, a lola Ynry yn cyfarwyddo

£10/12

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

**Perfformiad yn selar Tŷ Portland
Anaddas ar gyfer ymwelwyr anabl**

20:45 Nos Sadwrn o Hyd

Gweler nos Sadwrn am fanylion llawn

£10

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

Perfformiad yn Ffresch

#masarymaes

Pentref Drama

Trefnir gan yr Eisteddfod mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru



Lleolir Theatr y Maes yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a chynhelir rhai gweithgareddau theatrigr yn y Babel Lën yn y Ganolfan ynghyd â chanolfannau eraill fel y nodir.

Bydd angen band garddwrn i gael mynediad i'r Ganolfan **yn ystod y dydd**, a bydd angen tocyn i berfformiadau **gyda'r nos**. Nodir sesiynau lle nad oes angen band garddwrn gyda*11:00
Cystadleuaeth
Actio Drama neu
waith dyfeisiedig
(112)Tu Hwnt i bob Gofid gan Sion Pennant –
Cwmni Doli MicstiysPam bod plant yr ysgol yn poeni Hannah,
a phwy yw'r 'cyfaiil' dirgel yna sy'n
hongian o'i chwmpas? Tybed all Bethan ei
helpu? Drama sy'n delio â'r thema iechyd
meddwl gaiff ei pherfformio gan griw o
actorion ifanc

Hannah	Heledd Davies
Bethan	Gwenllian King
Y Llais	Glain Llwyd Davies
Geraint	Oisín Luudd Pennant
Iestyn	Ifan Clubb
Rhodri	Osian King
Gwawr	Elain Tanat
Rhian	Elen Madryn

Cynhyrhydd Sion Pennant
Gweler dydd Sul am fanylion llawn

Perfformiad yn Theatr y Maes

11:00
Chwarae – Elgan
Rhys gyda Matt
Gough a R.SeiliogPa deganau, pa gemau, a rheolau pwy?
Cipolwg o ddarn o theatr newydd gan
Theatr lolo a Pontio ar gyfer plant 4+
a'u hoedolion. Mae'r artist Elgan Rhys
wedi bod yn archwilio pwysigrwydd
chwarae ym mywydau plant ac oedolion
ac mae'r gwaith-ar-y-gweill yma yn dathlu
cymhlethdodau'r sut, ble, pam, gyda
phwy a'r beth am chwarae yn ein byd
hynod brysur...

Gweithdy dychmygus i'r teulu i ddilyn

Perfformiad yn Shw'mae Caerdydd*

12:30
Wastad ar y tu fas?Darlleniadau a thrafodaeth am ddrâmâu
sy'n ymwneud â'r byd LHDTSesiwn yn Theatr y Maes
#masarymaes13:00
Ffatri ChwedlauGweithdy hwyliog gan griw Sbarc Galeri i
danio'r dychmyg wrth greu chwedlau o'r
newydd a'u hadrodd gan ddefnyddio pob
math o arddulliau creadigol

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

14:00
Karen a Bryn –
Caryl Lewis,
Theatr Gen CreuDarlleniad o ddrama newydd sy'n dilyn
hanes gŵr a gwraig a deuawd boblogaidd
sy'n gweithio yng nghlybiau'r gweithwyr
ar hyd a lled de Cymru. Pan mae Karen
yn darganfod cyfrinach fawr ei gŵr, mae
byd y ddau'n cael ei droi ben i waered, ac
wrth i Bryn ystyried cwestiynau sylfaenol
ynglŷn â'i hunaniaeth rhywedd, tybed
beth fydd ymateb ei wraig?Sgwrs i ddilyn gyda'r awdur a'r
cyfarwyddwr. Cadeirydd: Cris Dafis
Cynhyrchiad gan Theatr Genedlaethol
CymruCyflwyniad o waith-ar-waith yn
Theatr y Maes
#masarymaes
#TheatrGenCreuSteddfod14:00
Frân Wen

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

14:00
Meiddio MeddwlGan weithio gyda thîm o ysgrifenywyr,
cerddorion ac artistiaid gweledol mae
disgyblion Ysgol Glan Morfa a Theatr
lolo wedi dychmygu o'r newydd yr
Eisteddfod a Bae Caerdydd mewn modd
llawn gwreiddioldeb a llawn syndod a
fydd yn herio eich adnabyddiaeth a'ch
disgwyliadau. Sioe berffaith i deuluoedd
â phlant 6+Syniad gwreiddiol gan Anna Poole.
Lle i hyd at 10 person ar bob taith.
Teithiau'n rhedeg pob hanner awr tan
16:30 ac yn para tua 40 munudTeithiau'n cychwyn o'r Cwt
Gwybodaeth Coch*15:00
Creu PypedauGweithdy creu pypedau bysedd i blant oed
cynradd gyda Theatr Genedlaethol Cymru

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

15:00
Merched Caerdydd
– Catrin Dafydd,
Theatr Gen Creu*Cariad, Liberty ac Awen.* Dyma stori
am dair diemwnt lachar sy'n mynnu
disgleirio yn y llefydd lletchwith hynny
yng Nghaerdydd nad y'n ni am fynd iddyn
nhw... llefydd a sefyllfaoedd fyddai'n
llawer haws inni anghofio amdanynt.
Mae'r merched hyn yn byw bywydau
gwahanol iawn i'w gilydd, ond mae un
ffactor yn gyffredin rhyngddynt – maen
nhw'n benderfynol o oroesi'n hardd er
mor hyll a diflas y gall bywyd fod.Darlleniad o dair monolog newydd mewn
datblygiad. Sgwrs i ddilyn gyda'r awdur a'r
cyfarwyddwr.Cyd-gynhyrchiad Theatr Genedlaethol
Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol CymruSesiwn yn Theatr y Maes
#caerdydd #TheatrGenCreuSteddfod16:00
Ffatri Chwedlau

Gweler 13:00 am fanylion llawn

18:00
Milwr yn y Meddwl
– Heiddwen Tomos

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 80020:00
Gair o Gariad –
Theatr Bara Caws

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10/12

40 sedd yn unig sydd ar gael ym mhob
perfformiad, felly cyntaf i'r felin.
Tocynnau o www.chapter.org20:00
#Sieiloc

Gweler nos Sul am fanylion llawn

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 80020:00
Anweledig –
Aled Jones
Williams

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 80020:45
Nos Sadwrn o Hyd

Gweler nos Sadwrn am fanylion llawn

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800

#masarymaes

Pentref Drama

Trefnir gan yr Eisteddfod mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru



Lleolir Theatr y Maes yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a chynhelir rhai gweithgareddau theatrig yn y Babel Lân yn y Ganolfan ynghyd â chanolfannau eraill fel y nodir.

Bydd angen band garddwrn i gael mynediad i'r Ganolfan **yn ystod y dydd**, a bydd angen tocy'n i berfformiadau **gyda'r nos**. Nodir sesiynau lle nad oes angen band garddwrn gyda*

11:00 Cystadleueth Actio Drama neu waith dyfeisiedig (112)

Diwedd y Byd gan Meic Povey (Addasiad Carys Edwards) – Cwmni Drama Maes

Mae Rhi, Em, Mags a Deio ar un antur olaf ar ddiwedd gwyliau'r haf. Wrth wersylla ar y mynydd, mae sialens symud ymlaen i'r 'ysgol fawr' a newid byd ar y gorwel. Ond tybed a fydd 'chwarae'n troi'n chwerw' wrth i'r pedwar geisio delio gyda'r her o dyfu'i fyny a darganfod nad ydi bywyd yn fêl i gyd.

Mae Cwmni Maes yn griw brwdfrydig o ddisgyblion blwyddyn 9 sy'n ymddiddori yn myd y ddrama

Deio	Gruffydd Weston
Em	Tomos Adams
Rhi	Lili-Mai Davies
Mags	Efa Angharad Fychan
Set, props a gwisgoedd	Sara Jones a Carys Williams
Sain a golau	Eilis Vaughan
Tim Cyfarwyddo	Tanwen Moon, Garan Hallam, Carys Edwards

Gweler dydd Sul am fanylion llawn

Perfformiad yn Theatr y Maes

11:00 Creu Wal Ddrama

Gweler dydd Llun am fanylion llawn

12:00 Y Gadair Ddu

Darn o theatr gorfforol sydd wedi ei ddyfeisio gan bobl ifanc Theatr Ieuencid Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ynglŷn â rhagolygon, celf, a cholli bywyd yn ifanc. Mae'r darn yn ymateb gan y bobl ifanc i hanes Hedd Wyn a cholledion y Rhyfel Byd Cyntaf, ar ben gobeithion i'r dyfodol a chenedlaethau newydd. Bydd y darn yn para tua 15 munud, ac yn addas ar gyfer unrhyw oedran

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

12:30 Cynllun Awdur Preswyl Theatr Clwyd

Fel rhan o raglen TYFU Theatr Clwyd a'u hymrwymiad i ddod yn gartref i awduron yng Nghymru, mae'r cwmni'n cynorthwyo tri awdur sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg i weithio ochr yn ochr â chwmni Paines Palugh. Bydd pob awdur yn datblygu sgrïpt 10 munud a fydd yn cael ei pherfformio yn yr Eisteddfod

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

13:30 Rhybudd, Iaith Anweddus – Llwyd Owen

Gan ddefnyddio beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen (*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau, Eisteddfod Genedlaethol 2005*) o *Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau*, sef nofel gyntaf Llwyd Owen, fel asgwrn cefn y perfformiad dramatig hwn, bydd yr awdur yn tywys y gynulleidfa, gyda chymorth cwmni bach o actorion, ar daith trwy rai o olygfeydd mwyaf cofiadwy ei nofelau

Sioe newydd sbon ar gyfer Eisteddfod Caerdydd i'w pherfformio gan gast o actorion dan gyfarwyddyd Hana Jarman gyda chymorth Cwmni'r Frân Wen.

30 sedd yn unig sydd ar gael ym mhob perfformiad, felly cyntaf i'r felin! Anaddas i rai dan 16 oed ac i ymwelwyr anabl

Perfformiad yn selar Tŷ Portland*

14:00 Aw'r Pencampwyr – Theatr Gen Creu

Darlenniadau o ddramâu newydd gan rai o gyn-enillwyr cystadleueth Medal Ddrama'r Eisteddfod Genedlaethol gan Theatr Genedlaethol Cymru

Tybed a welsoch chi gynrychiadau o ddramâu buddugol diweddar y Fedal Ddrama – *Dŵr Mawr Dyfn* gan Glesni Haf, *Rhith Gân* gan Wyn Mason, ac *Estron* gan Hefin Robinson? Mae'r tri awdur buddugol wedi bod yn datblygu syniadau ar gyfer dramâu newydd gwreiddiol gyda Theatr Genedlaethol Cymru, sef *Tydi Waliau'n Siarad?* (Glesni Haf), *Asyn* (Wyn Mason) a *Tywyllwch* (Hefin Robinson). Dyma gyfle i glywed detholiad o'r dramâu yma yn eu dyddiau cynnar

Sgwrs i ddilyn gyda'r awduron a'r cyfarwyddwyr

**Sesiwn yn Theatr y Maes
#TheatrGenCreuSteddfod**

14:30 Gair o Gariad – Theatr Bara Caws

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10/2

40 sedd yn unig sydd ar gael ym mhob perfformiad. Tocynnau o www.chapter.org

14:30 Ffatri Chwedlau

Gweler dydd Mawrth am fanylion llawn

15:30 Merched Caerdydd – Catrin Dafydd, Theatr Gen Creu

Gweler dydd Mawrth am fanylion llawn

15:30 Frân Wen

16:00 Rhybudd, Iaith Anweddus – Llwyd Owen

Gweler uchod am fanylion llawn

16:15 Cofio Meic

Cyfle i gofio'r dramodydd a'r awdur Meic Povey, yng nghwmni'i gyfeillion

Sesiwn yn Y Babel Lân

18:00 Milwr yn y Meddwl – Heiddwen Tomos

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

20:00 Gair o Gariad – Theatr Bara Caws

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10/12

40 sedd yn unig sydd ar gael ym mhob perfformiad. Tocynnau o www.chapter.org

20:45 Cau dy Geg – Stifyn Parri

Gwledd o glecs gan un o gegau mwya'r wlad – sydd hefyd wedi gweithio hefo rhai o sêr mwya'r byd. Mae hon yn sioe un dyn, di-sgrïpt, di-flewyn ar dafoed – a digywilydd

£10

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

Perfformiad yn Ffresh

#masarymaes

Pentref Drama

Trefnir gan yr Eisteddfod mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru



Lleolir Theatr y Maes yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a chynhelir rhai gweithgareddau theatrig yn y Babel Lën yn y Ganolfan ynghyd â chanolfannau eraill fel y nodir.

Bydd angen band garddwrn i gael mynediad i'r Ganolfan **yn ystod y dydd**, a bydd angen tocyn i berfformiadau **gyda'r nos**. Nodir sesiynau lle nad oes angen band garddwrn gyda*

11:00 Cystadleuaeth Actio Drama neu waith dyfeisiedig (112)

Wrth Aros Rufus: Drama Cywaith – Cwmni Cwm Ni

Mae'r cwmni drama ar fin dod i ben: mae'r plant yn y pantomeim wedi achosi difrod ac wedi ypsedio'r ficer; mae meistrs y gwisgoedd yn mynnu prynu mwy o wisgoedd er nad oes fawr ddim arian yn y cyfri. Does braidd neb yn dod i'w gweld ac mae'r rhai sydd yn dod yn diflannu yn ystod yr egwyl. Mae'r pwyllgor yn ceisio atebion. Swnio'n gyfarwydd? Ydy. Ond wrth aros Rufus...

Robin	Hywel Davies
Amanda	Ann Lewis
Geoff	Denzil John
Esyllt	Mary Jones
Thelma	Tracey Neale
Ficer	Ben Jones
Vergeer	Fred Brooks

Cynhyrchu	Allan Cook
Cofweinyddu	Annette Dutt
Gwisgoedd	Mary Jones
Props	Fred Brooks

Gweler dydd Sul am fanylion llawn

Perfformiad yn Theatr y Maes

11:00 Trafodaeth ar berfformiad diwylliannol yng Nghymru

A oes modd trafod diwylliant cenedlaethol yn nhermau perfformiad? Pa rôl sydd gan berfformiadau diwylliannol mewn

perthynas â chof cenedig? A beth yw rôl theatr, amgueddfa, y sector treftadaeth a'r Wyl mewn cynrychioli hunaniaeth genedligol? Anwen Jones sy'n cadeirio sesiwn drafod rhwng arbenigwyr diwylliannol, gan gynnwys Matthew Davies a Lisa Lewis. Digwyddiad wedi'i drefnu gan Wasg Prifysgol Cymru i lansio gyfrol *Performing Wales: People, Memory and Place* gan Lisa Lewis

Sesiwn yn Ystafell Seligman

11:00 Creu Wal Ddrama

Gweler dydd Llun am fanylion llawn

11:00 Criw Brwd

Gweithdy ar gyfer pobl ifanc 15+ oed, sy'n cynnwys gêmiau, ymarferion byrfyfr, gwaith dadansoddi a pherfformio sgrïpt. Dewch i gael hwyl tra'n datblygu eich sgiliau drama!

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

12:00 Gweithdy Gwenyn

Gweler dydd Llun am fanylion llawn

12:30 Gwobrwyo enillwyr yr Adran Ddrama

119. Cyfansoddi drama (cystadleuaeth arbennig i rai o dan 25 oed) yn addas i'w pherfformio gyda hyd at 4 cymeriad

Beirniad: Gwawr Martha Lloyd, Ian Staples

Gwobr: £200 (Er cof am Richard [Dic] Lewis gan Bethan a'r teulu)

120. Trosi un o'r canlynol i'r Gymraeg.

'The History Boys', Alan Bennett
'Grav', Theatr y Torch
Bydd y sgrïptiau a gymeradwyir gan y beirniaid yn cael eu hanfon at CBAC a WAPA

Beirniad: Manon Eames

Gwobr: £400 (Berwyn Prys Jones, Rhiwbeina, Caerdydd)

121. Cyfansoddi dwy fonolog gyferbyniol heb fod yn hwy na 4 munud yr un

Beirniad: Ffion Dafis

Gwobr: £200 (Berwyn Prys Jones, Rhiwbeina, Caerdydd)

122. Cyfansoddi drama radio mewn unrhyw genre na chymer fwy na 30 munud i'w chynhyrchu

Beirniad: Ynyr Williams

Gwobr: £200 (Robin a Branwen er cof am eu tad, Gwyn Parry)

123. Ffilm fer ar unrhyw ffurf ddigidol, hyd at 10 munud o hyd. Agored i unigolion neu grwpiau

Beirniad: Euros Lyn

Gwobr: £200 (Aled Tudur Evans, Yr Eglwys Newydd)

Sesiwn yn Lolfa'r Mileniwm

13:00 Frân Wen

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

13:30 Rhybudd, Iaith Anwedus – Llwyd Owen

Gweler dydd Mercher am fanylion llawn

14:00 Nel – Gwyneth Glyn (Addasiad o ffilm eiconig Meic Povey) Theatr Gen Creu

Mae'r fferm lle magwyd Nel, yng nghlydwch cwm pellennig yn Eryri, a lle mae hi a'i brawd oedrannus yn byw o hyd, dan fygythiad. Ei brawd hi ei hun sydd am ei gwerthu, a'u symud nhw ill dau i fyngalo 'braf' yn y dref. Ond mae eu nith yn dychwelyd o Gaerdydd i fro mebyd ei thad i geisio dal pen rheswm â'i hewythr penderfynol ac achub ei modryb rhag yr hunllef sy'n ei hwynebu. Yn alegori o ddirywiad y bywyd cefn gwlad Cymraeg, dyma addasiad llwfan newydd o'r ffilm arobryn o ddyddiau cynnar S4C.

Cyflwynir y darlenniad er cof am Meic Povey

Cyflwyniad o waith-ar-waith

Sgwrs i ddilyn gyda Gwyneth Glyn a'r cyfarwyddwr

Sesiwn Theatr Genedlaethol Cymru gyda chefnogaeth Rondo

Sesiwn Theatr Gen Creu gyda chefnogaeth Rondo

14:00 Ffatri Chwedlau

Gweler dydd Mawrth am fanylion llawn

14:00 Meiddio Meddwl – Theatr Iolo

Gweler dydd Mawrth am fanylion llawn

15:00 Creu Pypedau

Gweler dydd Mawrth am fanylion llawn

16:00 Ffatri Chwedlau

Gweler dydd Mercher am fanylion llawn

18:00 Milwr yn y Meddwl – Heiddwen Tomos

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru / 0845 4090 800

19:45 Clwb Drama

Fel clwb darllen – ond ar gyfer theatr: sgwrs a gynhelir ar ôl y sioe, ond nid sgwrs ôl-sioe. Cyfle i gyd-drafod ac i rannu ymatebion yn anffurfiol i *Milwr*

yn y *Meddwl* gydag aelodau eraill o'r gynulleidfa. Cynhelir y sesiwn ar ôl perfformiad nos iau, ond estynnir croeso cynnes i gynulleidfa oedd a fydd eisoes wedi mynychu un o'r perfformiadau yn gynharach yn ystod yr wythnos

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

20:00 Gair o Gariad – Theatr Bara Caws

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10/12

40 sedd yn unig sydd ar gael ym mhob perfformiad. Tocynnau o www.chapter.org

20:00 Mynd a Dod – Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru / 0845 4090 800

20:00 Anweledig – Aled Jones Williams

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10

Tocynnau o www.eisteddfod.cymru / 0845 4090 800

Pentref Drama

Trefnir gan yr Eisteddfod mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru



Leolir Theatr y Maes yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a chynhelir rhai gweithgareddau theatrigr yn y Babel Lân yn y Ganolfan ynghyd â chanolfannau eraill fel y nodir. Bydd angen band garddwrn i gael mynediad i'r Ganolfan **yn ystod y dydd**, a bydd angen tocyn i berfformiadau **gyda'r nos**. Nodir sesiynau lle nad oes angen band garddwrn gyda*

11:00 Y Ferch, y Pulpud a'r Gegin: Ydi crefydd yn dal i fod yn rhan annatod o Gymreictod benywaidd?

Cyfle i glustfeinio ar sgwrs rhwng tair sydd wedi mynd i'r afael â delweddau o ferched a chrefydd. Y dramodydd Fflur Dafydd yw awdur y gyfres ddrama boblogaidd *Parch*, a bu Manon Ceridwen James yn ymgynghorydd ar y gyfres. Hi hefyd yw awdur y gyfrol *Women, Identity and Religion in Wales*. Beti Wyn James, gweinidog amlwg a darlledwraig boblogaidd, sy'n cadeirio'r drafodaeth, sydd yng ngofal Gwasg Prifysgol Cymru

Sesiwn yn Ystafell Seligman

11:00 Creu Wal Ddrama

Gweler dydd Llun am fanylion llawn

12:00 Disgo Distaw Owain Glyndŵr – Light Ladd & Emberton

Un chwedl. Dau dîm. Clustffonau. Nawr dawnsiwch!

Mae Owain Glyndŵr, Tywysog a rebel chwedlonol Cymru, wedi diflannu! Dewch i ddarganfod ei dynged ar y llawr dawnsio. Dawnsiwch eich ffordd drwy wrthryfel Owain i gymysgedd o gerddoriaeth clwb clasurol ac alawon gwreiddiol, a hynny yng nghestyll ei wrthwynebwy!

Profiad unigryw Gymreig, gyda thwmpath ffyrnig, gemau strategol, cystadleuaeth ddawns, gwarchae a brad. Addas ar gyfer pob oedran. Dewch i ymgolli yn hanes Glyndŵr!

Sesiwn ar risiau'r Senedd*

12:00 Galw Gwyddonwyr ac Artistiaid

Yn dilyn llwyddiant eu project SYNTHESIS cyntaf i annog dau bâr gwahanol o wyddonwyr ac artistiaid i ddatblygu syniadau gyda'i gilydd sy'n pontio'r ddau fyd, mae Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio yn chwilio am broiectau newydd

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

12:30 Theatr Unnos 2018

20 awr i greu darn o theatr gwreiddiol! Eleni, cwmni Neontopia dan arweiniad Mareed Swain ac Alun Saunders sydd wedi derbyn yr her i greu drama dros nos i'w pherfformio yn Theatr y Maes

Sesiwn yn Theatr y Maes

13:00 Nyrsys

A hithau'n flwyddyn pan fo'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 70 oed, mae Nyrsys yn gipolwg ar brysurdeb dyddiol ward cancer mewn ysbyty yng Nghymru heddiw, gyda sgript a chaneuon wedi'u llunio o gyfweiliadau â nyrsys 'go iawn'.

Cyfle i glywed mwy am y cynhyrchiad cerddorol hwn gyda'r awdur, Bethan Marlow a'r Cyfarwyddwr, Sara Lloyd. Cyflwynir Nyrsys mewn cydweithrediad â Pontio

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

14:00 Aria Agored – Opera Cenedlaethol Cymru

Bydd Opera Cenedlaethol Cymru yn neidio i fyny yn ystod y prynhawn i berfformio ychydig o opera. Cyfle hefyd i weld arddangosfa o wisgoedd a phropiau o rai o'u cynhyrchiadau

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

14:00 Kate – Volcano Theatre a Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Gen Creu

Gan ddefnyddio rai o straeon byrion olaf Kate Roberts, mae hwn yn waith-ar-waith sy'n portreadu darnau o'r tirwedd hwnnw y mae'n craffu arno mewn ffordd mor fanwl. Mae ei disgrifiadau – barddonol weithiau – o fywyd ym mhentrefi'r diwydiant llechi yng ngogledd Cymru yn rhan o'r traddodiad llenyddol 'realaeth gymdeithasol', a bwriad y cynhyrchiad yw datblygu dull newydd o weld y gorffennol cyfarwydd hwn. Gan anrhydeddu athrylith Kate Roberts, anelir at gyflwyno iaith berfformio a allai fod yn esthetig, yn feiddgar, yn brydferth a hyd yn oed yn chwareus

Sgwrs i ddilyn gyda'r artistiaid sydd ynghlwm â'r prosiect

Sesiwn yn Theatr y Maes

#TheatrGenCreuSteddfod

14:00 Disgo Distaw Owain Glyndŵr – Light Ladd & Emberton

Gweler uchod am fanylion llawn

14:30 Aria Agored – Opera Cenedlaethol Cymru

Gweler uchod am fanylion llawn

15:30 Props ar y Pryd

Tri thîm, chwe pherfformiwr, boccs o bropiau a nesaf peth i ddim amser i baratoi – beth all fynd o'i le!?

Sesiwn yn Theatr y Maes

15:30 Aria Agored – Opera Cenedlaethol Cymru

Gweler uchod am fanylion llawn

16:00 Frân Wen

18:00 Milwr yn y Meddwl – Heiddwen Tomos

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

20:00 Anweledig – Aled Jones Williams

Gweler nos Lun am fanylion llawn

£10

**Tocynnau o www.eisteddfod.cymru/
0845 4090 800**

Pentref Drama

Trefnir gan yr Eisteddfod mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru



Leolir Theatr y Maes yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a chynhelir rhai gweithgareddau theatrigr yn y Babel Lân yn y Ganolfan ynghyd â chanolfannau eraill fel y nodir. Bydd angen band garddwrn i gael mynediad i'r Ganolfan **yn ystod y dydd**, a bydd angen tocyn i berfformiadau **gyda'r nos**. Nodir sesiynau lle nad oes angen band garddwrn gyda*

11:00

Lled y Llwyfan

Detholiad o ddramâu gan Ian Rowlands, Ed Thomas a Sera Moore Williams gafodd eu hysgrifennu cyn datganoli. Fe'u darllenir gan actorion sy'n cynnwys Sharon Morgan a Siân Summers, a fu'n gysylltiedig â Theatr y Byd, Y Cwmni ac Y Gymraes. Sgwrs fer wedi'i chadeirio gan lestin Llwyd i ddilyn

Sesiwn yn Theatr y Maes

12:30

Tebot 3 – Cwmni'r Tebot

Tair drama fer gan dri aelod o Gwmni'r Tebot, cwmni theatr gymunedol newydd o Wynedd. Perfformiadau llawn o waith gwreiddiol, heriol, gan Mared Llywelyn Williams, Mari Elen a Llyr Titus – pob un yn trafod agwedd ar fywyd cenhedlaeth y 90au. Mi fydd 'na chwerthin, a chicio a chnoi hefyd yn y sesiwn fywiog hon

Sesiwn yn Theatr y Maes

13:00

Disgo Distaw Owain Glyndŵr – Light Ladd & Emberton

Gweler dydd Gwener am fanylion llawn

14:00

Y Stamp 2018/19

Yn dilyn llwyddiant ysgubol drama radio gyntaf gwefan a chylchgrawn creadigol Y Stamp y llynedd, dyma gyflwyno – am y tro cyntaf – arlwy arfaethedig y gyfres ar gyfer 2018/19. Dyma sesiwn sgript-mewn-llaw hwyliog a bywiog fydd yn cynnwys gwaith newydd gan Ffion Haf Williams, Mared Llywelyn, Bethany Celyn a Carys Tudor. Carys Jones sy'n cyfarwyddo

Sesiwn yn Theatr y Maes

15:00

Merched Caerdydd – Catrin Dafydd, Theatr Gen Creu

Gweler dydd Mawrth am fanylion llawn

Sesiwn yng Nghaffi'r Theatrau*

15:00

Disgo Distaw Owain Glyndŵr – Light Ladd & Emberton

Gweler dydd Gwener am fanylion llawn

15:30

Cyraints Duon – Gwion Morris Jones

Darlleniad o ddrama newydd gan Gwion Morris Jones – un o'r artistiaid o gynllun datblygu artistiaid Frân Wen, EGiN

#masarymaes

Sesiwn yn Theatr y Maes